Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

Y Grŵp Llywodraeth Leol, Tai, Newid Hinsawdd a Materion Gwledig

# Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021
Creu Mannau a Chartrefi Prydferth

(WDQR 2021)

## Atodiad Cwestiynau Cyffredin
## Fersiwn 2 (F2)

Rhagfyr 2025

## Y CEFNDIR

Un o brif argymhellion yr Adolygiad Annibynnol o'r Cyflenwad o Dai Fforddiadwy yw y "*Dylai Llywodraeth Cymru ddatblygu safonau syml cyfunol newydd ar gyfer cartrefi newydd A106 ac a gaiff cymorth grant. Dylai'r safonau newydd fod yn haws eu defnyddio ac ni ddylai unrhyw ofynion wrthdaro*".

Yn ymateb i'r argymhelliad hwnnw, lansiwyd y safon ansawdd tai "Gofynion Ansawdd Datblygu Cymru 2021 – Creu Mannau a Chartrefi Prydferth" (WDQR 2021) ym mis Gorffennaf 2021, a oedd yn gosod gofynion ansawdd newydd ar gyfer tai cymdeithasol, yn seiliedig ar hyblygrwydd, gofod a chynaliadwyedd.

Cytunwyd y dylai WDQR 2021 gael ei adolygu'n amlach na fersiynau cynharach o safonau tebyg, fel yr hen Ofynion Ansawdd Datblygu 2005 (DQR).

Mae swyddogion Llywodraeth Cymru wedi bod yn adolygu WDQR 2021 wrth iddyn nhw gael eu gweithredu dros y pedair blynedd diwethaf. Yn ystod yr adolygiad cyntaf yn 2023, daethpwyd i'r casgliad nad oedd angen newid y safon yn sylweddol i gynnal y nodau polisi. Ymdriniwyd â chwestiynau mewn perthynas â'r ffordd y cafodd y safon ei chymhwyso yn ystod y ddwy flynedd gyntaf o'i gweithredu drwy gyhoeddi fersiwn gychwynnol o Atodiad Cwestiynau Cyffredin (FAQ) ym mis Rhagfyr 2023.

Ers 2023, mae swyddogion wedi adolygu cwestiynau pellach mewn perthynas â gweithredu'r safon. Unwaith eto, daethpwyd i'r casgliad nad oes angen newid y safon yn sylweddol ar hyn o bryd er mwyn cynnal y nodau polisi. Nid yw cwestiynau pellach, yr ymdrinnir â nhw yn Fersiwn 2 (V2) hwn o Atodiad Cwestiynau Cyffredin WDQR 2021, sef "Atodiad Cwestiynau Cyffredin 2025", wedi arwain at unrhyw newidiadau i ymatebion 2023, ond wedi arwain at ddau newid mewn perthynas â:

1. Gorgynhesu (tt 2).
2. Lifftiau (tt 6).

## RHAGAIR

### Cwestiwn Newydd (2025)
*A oes angen lifftiau mewn datblygiadau aml-lawr?*

### Ymateb

Nid oes gofynion penodol ar gyfer cynnwys lifftiau cymunedol yn WDQR 2021, fel yr oedd yn flaenorol yn DQR 2005. Fodd bynnag, mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i ddarparwyr tai cymdeithasol defnyddio arferion da ac ystyried darparu lifftiau i bobl ar gyfer fflatiau â mynedfa gyffredin dros ddau lawr.

Mae WDQR 2021 yn canolbwyntio ar ofynion ar gyfer dyluniad y cartref ei hun. Darparwyr tai a'u dylunwyr eu hunain sy'n gyfrifol am benderfynu ynghylch trefn a chynllun pob datblygiad, a bydd eu harbenigedd a'u profiad yn llywio'r dyluniad ehangach. Fodd bynnag, mae'r Rhagair i'r safon yn nodi disgwyliadau i ddyluniad cynllun ganolbwyntio ar rôl creu lleoedd, sicrhau'r arferion gorau wrth ddylunio a diwallu anghenion cymunedol, teuluol ac unigol.

Rydyn ni o'r farn bod gynnwys lifft mewn bloc aml-lawr o fflatiau yn darparu manteision clir ac amlwg i breswylwyr ac ymwelwyr, gan ddarparu mynediad ar gyfer amrediad eang o aelwydydd ag anghenion gwahanol – gan gynnwys yr henoed, defnyddwyr cadair olwyn, pobl ag anawsterau cerdded, preswylwyr ag anabledd neu anhwylder dros dro, i helpu preswylwyr i gario bagiau siopa bwyd i'w cartref, a hyd yn oed ar gyfer danfoniadau neu symud tŷ.

Gallai lifft hefyd roi digon o hyblygrwydd i breswylwyr aros yn eu cartref am gyfnod hirach, wrth iddyn nhw heneiddio ac efallai colli eu symudedd. Dylai'r pwynt olaf hwn ynddo'i hun gynnig manteision i ddarparwyr tai.

## GOFYNIAD 1(a)

### Cwestiwn
*A oes cyngor ar gael ar gyfer y sector cyfan ynghylch dadansoddi costau oes gyfan a gwerth am arian?*

### Ymateb (dim newid)

Mae Sefydliad Brenhinol y Syrfewyr Siartredig (RICS) wedi paratoi cyngor proffesiynol o'r enw "Life Cycle Costing" (argraffiad cyntaf, Ebrill 2016). Mae'r canllaw'n esbonio beth mae costau cylch bywyd a chostau oes gyfan yn ei olygu. Mae RICS yn cyfeirio hefyd at werthuswyr cylch bywyd eiddo.

**GOFYNIAD 1(b)**

**Cwestiwn**
*A allwch esbonio beth yw'r taliad chwyddo o 10% yng Nghanllawiau Costau Derbyniol (ACG) y Dull Adeiladu Modern (MMC)*

**Ymateb (dim newid)**

Mae taliad chwyddo o hyd at 10% ar gael ar gyfer cynlluniau sy'n gallu profi eu hymrwymiad i ffurf dderbyniol ar y MMC.

Dylid ystyried bod cartrefi sy'n cael eu hadeiladu drwy MMC yn cynrychioli "newid technolegol sylweddol" – rhaid i hynny olygu mwy na dim ond ymgorffori elfennau sy'n cael eu cynhyrchu fel arfer oddi ar y safle. Nid yw fframiau pren traddodiadol MMC Categori 2 (fframiau sy'n sgerbwd i'r strwythur yn unig) yn cael eu hystyried yn ddigon o "newid technolegol sylweddol" ac o'r herwydd, nid ydyn nhw'n gymwys am daliad uwch ACG yr MMC.

I fod yn dderbyniol, bydd angen i'r fframiau Categori 2 fod yn "baneli cymhlethach" gyda gwaith ffabricadu wedi'i wneud yn y ffatri ar y ffrâm sgerbwd, megis leinin ac inswleiddio. Er bod fframiau sydd wedi'u panelu'n llawn yn cael eu galw'n fframiau â phaneli caeedig ("closed panel"), dylid nodi bod gweithgynhyrchwyr yn aml yn cyfeirio at "baneli cymhlethach" sydd ag elfennau wedi'u gosod yn y ffatri ar un ochr y ffrâm fel fframiau "paneli agored". Mae'r rheini'n dderbyniol.

Er bod Llywodraeth Cymru'n annog adeiladwyr i ddefnyddio pren yn effeithiol ac er osgoi amheuon, caniateir defnyddio deunyddiau heblaw am bren mewn MMC a'u gweithgynhyrchu oddi ar y safle.

**GOFYNIAD 1(c)**

**Cwestiwn**
*A oes arweiniad ar gael i helpu i gyfrif carbon corfforedig, ar gyfer y senario "fel y byddai wedi'i ddylunio" a senario'r adeilad gorffenedig?*

**Ymateb (dim newid)**

Mae RICS wedi cynhyrchu safon ar gyfer Asesu Carbon Oes Gyfan (WLCA) (Ail argraffiad) sy'n cael ei chydnabod gan y maes adeiladu fel safon cyson a chywir ar gyfer mesur carbon. Bwriedir y safon ar gyfer gweithwyr proffesiynol, er mwyn iddyn nhw allu bodloni gofyn eu cleientiaid drwy fesur a rheoli allyriadau carbon mewn ffordd ddibynadwy a chyson.

**GOFYNIAD 1(d)**

**Cwestiwn**
*Pa "gynigion amgen" sy'n dderbyniol i gydymffurfio â Gofyniad 1(d)?*

**Ymateb (dim newid)**

Os yw'r "cynnig amgen" yn ddi-danwydd ffosil ac y gellir profi ei fod yn lleihau'r galw am ynni yn unol â "Hierarchaeth Ynni" Polisi Cynllunio Cymru, bydd y sgôr SAP (y Drefn Asesu Safonol) a geir yn dderbyniol at ddibenion craffu technegol a'r Grant Tai Cymdeithasol.

Yn ymarferol, bydd hynny fwy na thebyg yn golygu defnyddio gweithwyr proffesiynol â'r cymwysterau addas i ddylunio a modelu perfformiad adeilad gan ddefnyddio Pecyn Cynllunio Tŷ Goddefol (PHPP)/AECB i ddangos bod galw'r adeilad am ynni wedi'i leihau i lefel foddhaol yn unol â pholisi cynllunio Llywodraeth Cymru. Byddai gweithwyr proffesiynol addas yn cynnwys Dylunwyr/Ymgynghorwyr Tai Goddefol Ardystiedig neu ddylunwyr/ymgynghorwyr sydd â phrofiad o ddefnyddio'r PHPP.

Os cyflwynir cynnig amgen o'r fath, disgwylir y byddai ar adeilad PHPP angen 40kwH/m²/blwyddyn neu lai o ynni ar gyfer gwresogi a byddai angen i'r dylunwyr gyflwyno PDFs o'r model PHPP llawn ym mhob cam o'r craffu technegol (y Cysyniad, y Cynllunio a'r Adolygiad ar ôl Gorffen), gyda datganiad cydymffurfio byr. Derbynnir na fydd model SAP o'r cynnig amgen o reidrwydd yn arwain at radd ynni "A" ar y Dystysgrif Perfformiad Ynni (EPC).

Dylid nodi na ddylai cynnig amgen gael ei weld fel ffordd o gael gradd ynni SAP sy'n is na gradd A ar yr EPC. Yn hytrach, byddwn yn derbyn cyngor arbenigwr annibynnol sy'n dangos bod y gostyngiad yn y galw am ynni yn unol â'n gofynion, a gallai hynny arwain at radd A neu fel allai beidio â gwneud, gan ddibynnu ar y dyluniad.

**GOFYNIAD 1(d)**

**Cwestiwn**
*Os caiff modelau SAP eu diweddaru yn ystod camau dylunio ac adeiladu cynlluniau, gall hynny effeithio'n wael ar sgoriau SAP a'r dystysgrif EPC derfynol. A fyddai canlyniadau SAP yr effeithiwyd arnyn nhw fel hyn yn dderbyniol?*

**Ymateb (dim newid)**

Disgwylir i'r targedau ynni a gafodd eu pennu pan gafodd y Cysyniad ei gyflwyno arwain at dystysgrif EPC gradd A, yn seiliedig ar fersiwn meddalwedd y SAP a oedd yn gyfredol pan gafodd ei gyflwyno. Derbynnir, pan fydd newidiadau meddalwedd yn digwydd ar ôl y cam Cysyniad, efallai na fydd fersiynau mwy newydd o feddalwedd yn golygu EPC gradd A. Gellir defnyddio cyfrifiadau SAP "fel y'u cynlluniwyd" gan ddefnyddio fersiynau o'r model a ddefnyddir yn y cam Cysyniad, i brofi'r safon ofynnol ar ôl ei chwblhau waeth beth fo'r newidiadau meddalwedd interim.

**GOFYNIAD 1(d)**

**Cwestiwn**
*Sut bwriedir bodloni'r gwerthoedd ffabrig yn "Atodiad E" i Ddogfen Gymeradwy Rhan L y rheoliadau adeiladu?*

**Ymateb (dim newid)**

Rhaid bodloni fel isafswm y gwerthoedd ffabrig elfennol yn "Atodiad E" i Ddogfen Gymeradwy Rhan L, sef Cadwraeth Tanwydd a Phŵer, argraffiad 2022 (i'w ddefnyddio yng Nghymru). Ni chaniateir gwrthbwyso gwerthoedd ffabrig (er y caniateir hynny ar gyfer methodoleg cyfrif DER/TER "Rhan L") i gydymffurfio â WDQR 2021.

Er enghraifft, rhaid i'r waliau allanol a adeiladir sicrhau "gwerth-U" ($W/m^2K$) o 0.13 neu well.

**GOFYNIAD 1(d)**

**Cwestiwn**
*A ddylid ystyried Biomas, Biodanwyddau a Nwy Hylif yn danwydd ffosil?*

**Ymateb (dim newid)**

Mae biomas a biodanwyddau'n ffynonellau ynni adnewyddadwy. Nid ydyn nhw'n danwyddau ffosil. Ond dylai landlordiaid cymdeithasol gofio bod biomas yn gollwng gronynnau i'r aer all gyfrannu at ddirywio ansawdd yr aer yn y gymdogaeth, yn enwedig mewn tref neu ddinas lle mae ansawdd yr aer eisoes yn peri pryder. Gall defnyddio biodanwyddau effeithio ar ffermio drwy ddefnyddio tir allai gael ei ddefnyddio i gynhyrchu bwyd.

Tanwydd ffosil yw nwy hylif.

**GOFYNIAD 1(d)**

**Cwestiwn**
*A yw'r cyfeiriad at "adeiladau categori 1" yn anghywir o ran gorgynhesu a CIBSE TM59.*

**Ymateb (dim newid)**

Dylid asesu cydymffurfiaeth ar sail meddiannaeth Math I (fel y dywed adran 4.4 CIBSE TM59). Mae hynny'n cymryd y gallai pobl fregus ddod i fyw yn yr annedd rywbryd yn ystod ei oes.

Mae asesiad o orgynhesu yn unol â Rhan O Dogfen Gymeradwy y Rheoliadau Adeiladu yn ofyniad hefyd.

**GOFYNIAD 1(d)**

**Cwestiwn Newydd (2025)**
*A fydd y safon yn cael ei diweddaru mewn perthynas â gorgynhesu mewn adeiladau sy'n debygol o wneud hynny fel y profwyd gan rai tenantiaid yn ystod adborth Adolygiad Ôl-gwblhau?*

**Ymateb**

Dylai cartrefi gael eu cynllunio i liniaru'r risg o orboethi, wrth ar yr un pryd sicrhau cydbwysedd da rhwng golau dydd a chysur thermol. Anogir darparwyr tai a'u hymgynghorwyr i ystyried Offeryn a Chanllawiau 'Gorgynhesu mewn Cartrefi Newydd' y Good Homes League yn ystod camau cynnar y broses ddylunio i hyrwyddo arferion gorau a lleihau'r risg o orgynhesu.

Rhaid i gartrefi fodloni Dogfen Gymeradwy O yn y Rheoliadau Adeiladu.

**GOFYNIAD 3(a)**

**Cwestiwn**
*Mae'n amhosib i rai adeiladau sy'n bod gael tystysgrif safon Aur Secured by Design (SbD). O dan yr amgylchiadau hynny, pa dystysgrif SbD fyddai'n dderbyniol i Lywodraeth Cymru?*

**Ymateb (dim newid)**

Mae Llywodraeth Cymru'n sylweddoli na fydd hi wastad yn bosib i bob adeilad sy'n bod neu adeiladau sy'n cael eu haddasu neu eu hadnewyddu i fod yn gartref gydymffurfio'n llawn â WDQR 2021. I'r perwyl hwnnw, dywed Rhagymadrodd WDQR 2021:

"Pan fo cartrefi'n cael eu hadnewyddu, dylai darparwyr (os yw'n ymarferol ac yn gost effeithiol i wneud hynny), fanteisio ar bob cyfle i fodloni'r safon, ond os nad yw hyn yn bosibl, dylen nhw sicrhau bod gwagle a chyfleusterau digonol ar gael ar gyfer bywyd pob dydd."

Pan fydd adeiladau sy'n bod ac anheddau sy'n bod yn cael eu caffael a'u hadnewyddu, dylid wastad anelu at gyrraedd y safon WDQR 2021 lawn, sy'n cynnwys tystysgrif safon aur y SbD. Os nad yw adeiladau sy'n bod ac anheddau sy'n bod yn cyrraedd y safon yn y dechrau ond y gellid yn rhesymol eu hailddylunio fel eu bod yn cyrraedd y safon (h.y. ei bod yn ymarferol a chost-effeithiol gwneud hynny), yna dylid manteisio ar y cyfle i wneud hynny. Ond os gwelir ei bod yn amhosib cyrraedd y safon oherwydd amgylchiadau (er enghraifft, nad yw'r man parcio yn weladwy o'r annedd), mae Llywodraeth Cymru'n cytuno y gallai tystysgrif safon Arian SbD wneud y tro o gael cydsyniad y Swyddog Troseddu Dylunio (DOCO). Os yw cynllun yn cael ei gynnal mewn ardal â lefel troseddu uchel, mae'n bosib na fydd y DOCO o blaid rhoi'r safon Arian. Os felly, ni fydd y Cynllun yn dderbyniol i Lywodraeth Cymru.

**GOFYNIAD 3(a)**

**Cwestiwn**
*Wrth wneud gwaith ar adeiladau sy’n bod, a oes angen tynnu ffenestri a drysau o ansawdd da cyn iddyn nhw ddod i ddiwedd eu hoes?*

**Ymateb (dim newid)**

Wrth wneud gwaith adnewyddu, os mai’r bwriad yw cadw ffenestri a drysau sydd mewn cyflwr da a dim ond eu tynnu a rhoi rhai o safon Aur yr SbD yn eu lle pan fyddan nhw wedi dod i ddiwedd eu hoes, mae hynny’n dderbyniol. Ar yr amod nad yw’r DOCO wedi’ch cynghori i dynnu a chyfnewid yr elfennau hynny nawr oherwydd pryderon am droseddu lleol a/neu ddiogelwch ffisegol. Mae Llywodraeth Cymru’n derbyn y gall y DOCO beidio â rhoi tystysgrif safon Aur yr SbD tan y caiff yr elfennau newydd eu rhoi ar waith, ar yr amod mai dyna'r unig reswm dros beidio â rhoi’r dystysgrif. (Darllenwch hefyd y darn sy’n disgrifio lle mae tystysgrif safon Arian yn dderbyniol pan nad yw’n bosibl cyrraedd y safon Aur)

**GOFYNIAD 3(h)**

**Cwestiwn**
*A oes dal angen gosod synwyryddion Carbon Monocsid os nad oes tanwydd ffosil yn cael ei losgi?*

**Ymateb (dim newid)**

Dylid gosod synwyryddion Carbon Monocsid os ydych yn cadw neu’n gosod cyfarpar hylosgi (fel boileri nwy ac olew, stôfs a hobïau coginio), gan gynnwys cyfarpar tanwydd solid a hylosgi cludadwy)

**ATODIAD A**

**Cwestiwn**
*A yw'r ddolen i safon Lifetime Homes wedi torri?*

**Ymateb (dim newid)**

Dyma’r ddolen i’r safon …

https://cae.org.uk/our-services/housing-services/lifetime-homes/

**ATODIAD A**

**Cwestiwn**
*A oes modd llacio safon Lifetime Homes o ran mannau parcio gwastad a llwybrau gwastad i anheddau mewn ardaloedd bryniog?*

**Ymateb (dim newid)**

Rhaid dylunio datblygiadau fel eu bod yn cydymffurfio’n llawn â safon Lifetime Homes (LTH).

Rydyn ni'n cydnabod nad yw hi bob tro’n ymarferol i bob llwybr a phob mynedfa i gartref fod yn wastad (Amod 3 yr LTHA) ar safleoedd bryniog. Mae angen bod yn bragmatig wrth ddyfeisio’r atebion mwyaf priodol. Bydd angen i Lywodraeth Cymru gytuno arnynt fesul safle yn y cam dylunio’r Cysyniad.

Ond mae’n bwysig cofio nid oes modd cyfaddawdu gofynion Amod 1 yr LTH o ran pa mor serth y gall man parcio wedi’i ledu fod a gofynion Amod 2 yr LTH o ran llwybr hygyrch i fynedfa’r annedd.

**ATODIAD B**

**Cwestiwn**
*Nifer fach yn unig o Arwynebeddau Mewnol Gros (GIA) sy’n cael eu rhestru yn Atodiad B. Mae canllaw’r ACG ar y llaw arall yn trafod rhagor o fathau.*

**Ymateb (dim newid)**

Gallwch ddefnyddio tablau A a B yn y canllaw ACG bennu’r gwagle sydd ei angen ar gyfer y mathau ychwanegol hynny o gartrefi nad ydyn nhw wedi’u rhestru yn y tabl yn Atodiad B y WDQR 2021.

**ATODIAD B**

**Cwestiwn**
*Beth mae disgwyl i bartneriaid A106 ei wneud o ran rhannau cymwys y gofynion am wagle yn Atodiad A?*

**Ymateb (dim newid)**

Mae’r gofynion safon yr LTH o ran hygyrchedd a chyfleusterau ar gyfer golchi, sychu a chrasu dillad yn ofynion sylfaenol er mwyn cydymffurfio ag A106.

Mae’r holl ofynion o ran gwagle yn Atodiad A yn gymwys felly i gynlluniau A106.